



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 2732 (Cy.239)

2004 No. 2732 (W.239)

**CAFFAEL TIR,
CYMRU**

**ACQUISITION OF LAND,
WALES**

Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol
(Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad
Cenedlaethol Cymru)
2004

The Compulsory Purchase of Land
(Prescribed Forms) (National
Assembly for Wales) Regulations
2004

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu, gyda diwygiadau, Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol 1994 (O.S. 1994/2145) drwy ragnodi ffurfiâu i'w defnyddio mewn cysylltiad â phrynu tir yn orfodol, a phrynu'n orfodol hawliau newydd dros dir, a'r prynu hwnnw yn brynu sy'n ddarostyngedig i'r gweithdrefnau a geir yn Neddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") os yr awdurdod caffael neu'r awdurdod cadarnhau yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol").

These Regulations re-enact, with amendments, the Compulsory Purchase of Land Regulations 1994 (S.I. 1994/2145) by prescribing forms for use in connection with the compulsory purchase of land which is, and the compulsory purchase of new rights over land which are, subject to the procedures contained in the Acquisition of Land Act 1981 ("the 1981 Act") where the acquiring or confirming authority is the National Assembly for Wales ("the National Assembly").

Mae'r diwygiadau yn cymryd sylw o'r newidiadau deddfwriaethol yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) ac yn gwneud mân newidiadau drafftio.

The amendments take account of the legislative changes in the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c.5) and make further minor drafting changes.

Prif nodweddion y diwygiadau hynny yw darparu-

The main features of those amendments are to provide-

- (a) ffurfiâu a ragnodwyd ar gyfer categori estynedig o berson (y cyfeirir ato fel "person cymwys") y mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad iddo o wneud gorchymyn prynu gorfodol (adran 12(1) o Ddeddf 1981). Diwygir y ffurfiâu rhagnodedig er mwyn cynnwys y categori estynedig hwn yn yr Atodlen i orchymyn prynu gorfodol (Ffurfiâu 1 i 6);
- (b) ffurf a ragnodwyd ar gyfer hysbysiad o wneud neu baratoi, ar ffurf drafft, orchymyn prynu gorfodol sydd i'w lynu wrth wrthrych neu wrthrychau amlwg ar neu gerllaw'r tir sydd yn y gorchymyn (adran 11(3) o Ddeddf 1981 a

- (a) prescribed forms for an extended category of person (referred as a "qualifying person") who is to be served with notice of the making of a compulsory purchase order (section 12(1) of the 1981 Act). The prescribed forms are amended to provide for the inclusion of this extended category in the Schedule to a compulsory purchase order (Forms 1 to 6);
- (b) a prescribed form for a notice of the making or preparation in draft of a compulsory purchase order which is to be affixed to a conspicuous object or objects on or near the land comprised in the order (section 11(3) of, and paragraph

pharagraff 2(3) o Atodlen 1 iddi) (Ffurf 7). Yr un ffurf ragnodedig yw hon â'r un ar gyfer hysbysiad mewn papur newydd sy'n hysbysebu'r gorchymyn prynu gorfodol;

- (c) ffurf a ragnodwyd ar gyfer hysbysiad bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cadarnhau neu wneud gorchymyn prynu gorfodol sydd i'w lynu wrth wrthrych neu wrthrychau amlwg ar neu gerllaw'r tir sydd yn y gorchymyn prynu gorfodol (adran 15(1)(b) o Ddeddf 1981 a pharagraff 6(1)(b) o Atodlen 1 iddi) (Ffurf 10). Yr un ffurf ragnodedig yw hon â'r un ar gyfer hysbysiad mewn papur newydd sy'n hysbysebu cadarnhau neu wneud y gorchymyn prynu gorfodol; ac
- (ch) ffurf a ragnodwyd ar gyfer hysbysiad cadarnhau pan fydd yr awdurod caffael yn cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol na chafodd ei wrthwynebu yn dilyn hysbysiad gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag adran 14A o Ddeddf 1981 (Ffurf 11).

Mae'r ffurfiau a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn galluogi awdurdod caffael i ddefnyddio'r Gymraeg a/neu'r Saesneg.

2(3) of Schedule 1 to, the 1981 Act) (Form 7). This is the same prescribed form as for the newspaper notice advertising the compulsory purchase order;

- (c) a prescribed form for a notice of the National Assembly's confirmation or making of a compulsory purchase order which is to be affixed to a conspicuous object or objects on or near the land comprised in the compulsory purchase order (section 15(1)(b) of, and paragraph 6(1)(b) of Schedule 1 to, the 1981 Act) (Form 10). This is the same prescribed form as for the newspaper notice advertising the confirmation or making of the compulsory purchase order; and
- (d) a prescribed form for a notice of confirmation when the acquiring authority confirms an unopposed compulsory purchase order following notification by the National Assembly in accordance with section 14A of the 1981 Act (Form 11).

The forms contained in the Schedule to these Regulations enable an acquiring authority to use the Welsh and/or English language as that authority considers appropriate.

2004 Rhif 2732 (Cy.239)**2004 No. 2732 (W.239)****CAFFAEL TIR,
CYMRU****ACQUISITION OF LAND,
WALES****Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol
(Ffuriau Rhagnodedig) (Cynulliad
Cenedlaethol Cymru)
2004****The Compulsory Purchase of Land
(Prescribed Forms) (National
Assembly for Wales) Regulations
2004**

Wedi'u gwneud 19 Hydref 2004
Yn dod i rym 31 Hydref 2004

Made 19 October 2004
Coming into force 31 October 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer ei bwerau yn adrannau 7(2), 10(2), 11(1) a (3), 12(1), 15(5) a 22 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraffau 2(1) a (3), 3(1) a 6(5) o Atodlen 1 a pharagraff 9 o Atodlen 3 iddi ("y Ddeddf")(a), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(b):

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of its powers in sections 7(2), 10(2), 11(1) and (3), 12(1), 15(5) and 22 of, and paragraphs 2(1) and (3), 3(1) and 6(5) of Schedule 1 and paragraph 9 of Schedule 3 to, the Acquisition of Land Act 1981 ("the Act")(a), and all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations(b):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffuriau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Hydref 2004.

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Compulsory Purchase of Land (Prescribed Forms) (National Assembly for Wales) Regulations 2004 and come into force on 31 October 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i orchymyn prynu gorfodol-

(2) These Regulations apply to a compulsory purchase order which is-

- (a) sy'n ddarostyngedig i gadarnhad gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac nad yw'r awdurdod caffael, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, wedi cyhoeddi hysbysiad ar wneud y gorchymyn prynu gorfodol yn unol ag adran 11(1) o'r Ddeddf; neu
- (b) a baratowyd ar ffurf drafft gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, wedi

- (a) subject to confirmation by the National Assembly under Part 2 of the Act and the acquiring authority has not, before the coming into force of these Regulations, published notice of the making of the compulsory purchase order pursuant to section 11(1) of the Act; or
- (b) prepared in draft by the National Assembly under paragraph 1 of Schedule 1 to the Act and the National Assembly has not, before the coming into force of these Regulations,

(a) 1981 p.67; mewnosodwyd adrannau 11(3) a 15(5) o'r Ddeddf a pharagraffau 2(3) a 6(5) o Atodlen 1 iddi gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5).

(a) 1981 c.67; sections 11(3) and 15(5) of, and paragraphs 2(3) and 6(5) of Schedule 1 to, the Act were inserted by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c.5).

(b) Mae'r bwerau a enwir yn y Rheoliadau hyn, mewn perthynas â Chymru, gan mwyaf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adrannau 118(3) a 122(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

(b) The powers cited in these Regulations are, in relation to Wales, for the most part exercisable by the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and sections 118(3) and 122(1) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004.

cyhoeddi hysbysiad bod gorchymyn prynu gorfodol drafft wedi'i baratoi yn unol â pharagraff 2(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

published notice of the preparation in draft of the compulsory purchase order pursuant to paragraph 2(1) of Schedule 1 to the Act.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(a); ac

ystyr "gorchymyn prynu gorfodol clirio" ("*clearance compulsory purchase order*") yw gorchymyn prynu gorfodol a wnaed yn unol ag adran 290 o Ddeddf Tai 1985(b).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ffurf â rhif yn gyfeiriad at-

- (a) y ffurf sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn;
- (b) ffurf a addaswyd, yn ôl y gofyn, o'r ffurf honno sy'n dwyn y rhif hwnnw er mwyn bodloni amgylchiadau achos penodol; neu
- (c) ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg i'r ffurf honno, p'un ai a chafodd ei haddasu ai peidio; ac
- (ch) mewn perthynas â ffurf a ganiateir gan is-baragraffau (a) i (c) uchod, y ffurf honno yn Gymraeg neu'n Saesneg, neu'r ddwy iaith.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran â rhif yn gyfeiriad at yr adran honno yn y Ddeddf ac mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Atodlen honno i'r Ddeddf.

Ffurffiau rhagnodedig mewn cysylltiad â gorchymynion prynu gorfodol

3.-(1) At ddibenion adran 10(2) o'r Ddeddf, ffurf y gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) y mae'n rhaid ei defnyddio yw-

- (a) Ffurf 1; neu
- (b) os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf, neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi (tir comin, mannau agored etc.), Ffurf 2; neu
- (c) os nad yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi, ond yn darparu ar gyfer rhyddhau'r tir a brynwyd o'r hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion yn unol â'r adran honno neu'r paragraff hwnnw, Ffurf 3.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"clearance compulsory purchase order" ("*gorchymyn prynu gorfodol clirio*") means a compulsory purchase order made pursuant to section 290 of the Housing Act 1985(a); and

"the Listed Buildings Act" ("*y Ddeddf Adeiladau Rhestredig*") means the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990(b).

(2) Any reference in these Regulations to a numbered form is a reference to-

- (a) the form bearing that number in the Schedule to these Regulations;
- (b) a form adapted from that numbered form as may be required to meet the circumstances of a particular case; or
- (c) a form substantially to the like effect as that form, whether adapted or not; and
- (d) in relation to a form permitted by subparagraphs (a) to (c) above, that form in the English or Welsh language, or both.

(3) Any reference in these Regulations to a numbered section is a reference to that section of the Act and any reference to a numbered Schedule is a reference to that Schedule to the Act.

Prescribed forms in connection with compulsory purchase orders

3.-(1) For the purposes of section 10(2) of the Act, the form of a compulsory purchase order (other than a clearance compulsory purchase order) which must be used is-

- (a) Form 1; or
- (b) if the order provides for the vesting of land given in exchange pursuant to section 19 of, or paragraph 6 of Schedule 3 to, the Act (commons, open spaces etc.), Form 2; or
- (c) if the order does not provide for the vesting of land given in exchange pursuant to section 19 of, or paragraph 6 of Schedule 3 to, the Act, but provides for discharging the land purchased from rights, trusts and incidents pursuant to that section or paragraph, Form 3.

(a) 1990 p.9.

(b) 1985 p.68; diwygiwyd Rhan 9 o Ddeddf 1985 gan Ran 2 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).

(a) 1985 c.68; Part 9 of the 1985 Act is amended by Part 2 of Schedule 9 to the Local Government and Housing Act 1989 (c.42).

(b) 1990 c.9.

(2) At ddibenion adran 10(2), ffurf y gorchymyn prynu gorfodol clirio y mae'n rhaid ei defnyddio yw-

- (a) Ffurf 4; neu
- (b) os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf, neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi (tir comin, mannau agored etc.), Ffurf 5; neu
- (c) os nad yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi, ond yn darparu ar gyfer rhyddhau'r tir a brynwyd o'r hawliau, ymddriedolaethau a nodweddion yn unol â'r adran honno neu'r paragraff hwnnw, Ffurf 6.

(3) At ddibenion-

- (a) adran 11(1) o'r Ddeddf a pharagraff 2(1) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad mewn papur newydd; a
- (b) adran 11(3) o'r Ddeddf a pharagraff 2(3) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad sydd i'w gosod ar neu gerllaw'r tir sydd yn y gorchymyn,

y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 7.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 4 -

- (a) at ddibenion adran 12(1) o'r Ddeddf a paragraff 3(1) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad i berson cymwys(a) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 8; neu
- (b) os gwneir y gorchymyn o dan adran 121 neu 125 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(b) ar ran prif gyngor(c) neu gyngor cymuned, neu yn unol â chytundeb o dan adran 8 o Ddeddf Priffyrdd 1980(ch) ar ran awdurdod priffyrdd(d), y ffurf y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 9.

(5) At ddibenion adran 15 o'r Ddeddf a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad o gadarnhau (dd) neu wneud (e) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 10, ac eithrio pan wneir y cadarnhau gan yr awdurdod caffael yn unol ag adran 14A o'r Ddeddf, ac yn yr achos hwnnw y ffurf y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 11.

(2) For the purposes of section 10(2), the form of a clearance compulsory purchase order which must be used is-

- (a) Form 4; or
- (b) if the order provides for the vesting of land given in exchange pursuant to section 19 of, or paragraph 6 of Schedule 3 to, the Act (commons, open spaces etc.), Form 5; or
- (c) if the order does not provide for the vesting of land given in exchange pursuant to section 19 of, or paragraph 6 of Schedule 3 to, the Act, but provides for discharging the land purchased from rights, trusts and incidents pursuant to that section or paragraph, Form 6.

(3) For the purposes of-

- (a) section 11(1) of, and paragraph 2(1) of Schedule 1 to, the Act, the form of a newspaper notice; and
- (b) section 11(3) of, and paragraph 2(3) of Schedule 1 to, the Act, the form of a notice to be affixed on or near the land comprised in the order,

which must be used is Form 7.

(4) Subject to regulation 4-

- (a) for the purposes of section 12(1) of, and paragraph 3(1) of Schedule 1 to, the Act, the form of a notice to a qualifying person(a) which must be used is Form 8; or
- (b) if the order is made under section 121 or 125 of the Local Government Act 1972(b) on behalf of a principal council(c) or community council, or pursuant to an agreement under section 8 of the Highways Act 1980(d) on behalf of a highway authority(e), the form which must be used is Form 9.

(5) For the purposes of section 15 of, and paragraph 6 of Schedule 1 to, the Act, the form of a confirmation notice(f) or making notice(g) which must be used is Form 10, except when confirmation is by the acquiring authority pursuant to section 14A of the Act, in which case the form which must be used is Form 11.

(a) I gael y diffiniad o "qualifying person", gweler adran 12(2) o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 3(2) o Atodlen 1 iddi.

(b) 1972 p.70.

(c) I gael y diffiniad o "principal council", gweler adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(ch) 1980 p.66.

(d) I gael y diffiniad o "highway authority", gweler adran 1 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

(dd) I gael ystyr "confirmation notice", gweler adran 15(4) o Ddeddf Caffael Tir 1981.

(e) I gael y diffiniad o "making notice", gweler adran 6(4) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981.

(a) For the definition of "qualifying person", see section 12(2) of, and paragraph 3(2) of Schedule 1 to, the Acquisition of Land Act 1981.

(b) 1972 c.70.

(c) For the definition of "principal council", see section 270 of the Local Government Act 1972.

(d) 1980 c.66.

(e) For the definition of "highway authority", see section 1 of the Highways Act 1980.

(f) For the definition of "confirmation notice", see section 15(4) of the Acquisition of Land Act 1981.

(g) For the definition of "making notice", see paragraph 6(4) of Schedule 1 to the Acquisition of Land Act 1981.

(6) At ddibenion adran 22 o'r Ddeddf a pharagraff 9 o Atodlen 3 iddi, ffurf yr hysbysiad mewn papur newydd, sy'n datgan bod tystysgrif wedi cael ei rhoi o dan adran 16 neu 19 o'r Ddeddf neu baragraff 3 neu 6 o Atodlen 3 iddi, y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 12.

Darpariaethau ychwanegol o ran adeiladau rhestredig

4. Os caiff gorchymyn prynu gorfodol ei wneud o dan adran 47 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (caffaeliad gorfodol o adeiladau rhestredig y mae angen eu trwsio), rhaid cynnwys -

- (a) yn Ffurf 1, pan fo'n briodol, y paragraff â rhif 4 yn y Ffurf honno;
- (b) ar ddiwedd paragraff 2 o Ffurf 8-
 - (i) ym mhob achos, y paragraffau ychwanegol yn y nodiadau i Ffurf 8 a rifwyd 3 a 5;
 - (ii) yn unrhyw achos lle mae angen hysbysiad yn ôl adran 50(3) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (lleiafswm iawndal yn achos adeilad a adawyd i ddadfeilio'n fwriadol) i gynnwys datganiad bod yr awdurdod neu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer lleiafswm iawndal, y paragraff ychwanegol yn y nodiadau i Ffurf 8 â rhif 4,

ac mae gweddill y paragraffau i'w hailrifo'n unol â hynny.

Dirymu

5. Dirymir Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol 1994(a) i'r graddau y byddent yn gymwys i orchymyn prynu gorfodol y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b).

19 Hydref 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) O.S. 1994/2145.
(b) 1998 p.38.

(6) For the purposes of section 22 of, and paragraph 9 of Schedule 3 to, the Act, the form of a newspaper notice stating that a certificate has been given under section 16 or 19 of, or paragraph 3 or 6 of Schedule 3 to, the Act which must be used is Form 12.

Additional provisions with respect to listed buildings

4. Where a compulsory purchase order is made under section 47 of the Listed Buildings Act (compulsory acquisition of listed buildings in need of repair), there must be included-

- (a) in Form 1, where appropriate, the paragraph in that Form numbered 4;
- (b) after the end of paragraph 2 of Form 8-
 - (i) in every case, the additional paragraphs in the notes to Form 8 numbered 3 and 5;
 - (ii) in any case where the notice is required by section 50(3) of the Listed Buildings Act (minimum compensation in the case of a building deliberately left derelict) to include a statement that the authority or National Assembly has included a direction for minimum compensation, the additional paragraph in the notes to Form 8 numbered 4,

and the remaining paragraphs are to be re-numbered accordingly.

Revocation

5. The Compulsory Purchase of Land Regulations 1994(a) are revoked to the extent that they would be applicable to a compulsory purchase order to which these Regulations apply.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b).

19 October 2004

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) S.I. 1994/2145.
(b) 1998 c.38.

ATODLEN

SCHEDULE

Rheoliad 2(2)

Regulation 2(2)

CYNNWYS

CONTENTS

| | | | |
|----------|--|---------|---|
| Ffurf 1 | Gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio). | Form 1 | Compulsory purchase order (other than a clearance compulsory purchase order). |
| Ffurf 2 | Gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) sy'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid. | Form 2 | Compulsory purchase order (other than a clearance compulsory purchase order) providing for the vesting of exchange land. |
| Ffurf 3 | Gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) nad yw'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid, ond y mae'n darparu ar gyfer rhyddhau o hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion. | Form 3 | Compulsory purchase order (other than a clearance compulsory purchase order) not providing for the vesting of exchange land, but providing for the discharge of rights, trusts and incidents. |
| Ffurf 4 | Gorchymyn prynu gorfodol clirio. | Form 4 | Clearance compulsory purchase order. |
| Ffurf 5 | Gorchymyn prynu gorfodol clirio sy'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid. | Form 5 | Clearance compulsory purchase order providing for the vesting of exchange land. |
| Ffurf 6 | Gorchymyn prynu gorfodol clirio nad yw'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid, ond y mae'n darparu ar gyfer rhyddhau o hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion. | Form 6 | Clearance compulsory purchase order not providing for the vesting of exchange land, but providing for the discharge of rights, trusts and incidents. |
| Ffurf 7 | Hysbysiad ynghylch gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer cyhoeddiad papur newydd ac arddangos ar neu gerllaw'r tir sy'n destun y gorchymyn. | Form 7 | Notice concerning a compulsory purchase order for newspaper publication and display on or near the land subject to the order. |
| Ffurf 8 | Hysbysiad i berson cymwys o dir (neu dir sy'n ddarostyngedig i hawliau newydd) a geir mewn gorchymyn prynu gorfodol. | Form 8 | Notice to a qualifying person of land (or of land subject to new rights) comprised in a compulsory purchase order. |
| Ffurf 9 | Hysbysiad i berson cymwys o dir (neu dir sy'n ddarostyngedig i hawliau newydd) a geir mewn gorchymyn prynu gorfodol a wneir ar ran cyngor. | Form 9 | Notice to a qualifying person of land (or of land subject to new rights) comprised in a compulsory purchase order made on behalf of a council. |
| Ffurf 10 | Hysbysiad o wneud neu gadarnau gorchymyn prynu gorfodol (gan awdurdod nad yw'n awdurdod caffael). | Form 10 | Notice of making or confirmation (other than by the acquiring authority) of a compulsory purchase order. |
| Ffurf 11 | Hysbysiad o gadarnau gorchymyn prynu gorfodol gan awdurdod caffael. | Form 11 | Notice of confirmation by an acquiring authority of a compulsory purchase order. |
| Ffurf 12 | Hysbysiad papur newydd o roi tystysgrif o dan adran 16 neu 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 neu baragraff 3 neu 6 o Atodlen 3 iddi. | Form 12 | Newspaper notice of the giving of a certificate under section 16 or 19 of, or paragraph 3 or 6 of Schedule 3 to, the Acquisition of Land Act 1981. |

FFURF 1

FORM 1

Rheoliad 3(1)(a)

Regulation 3(1)(a)

FFURF GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

FORM OF COMPULSORY PURCHASE ORDER

[GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
() (a)]

[THE ()
COMPULSORY PURCHASE ORDER] (a)

Deddf [] (b)

The [] Act (b)

a Deddf Caffael Tir 1981

and the Acquisition of Land Act 1981

[Deddf(au) [] (b)]

[The [] Act(s) (b)]

Mae [(c)] (a elwir "yr awdurdod caffael" yn y gorchymyn hwn) yn gwneud y gorchymyn canlynol-

The [(c)] (in this order called "the acquiring authority") makes the following order-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gorchymyn hwn, awdurdodwyd yr awdurdod caffael, o dan [adran o][a] [pharagraff o Atodlen i][Ddeddf (b)], drwy hyn i brynu'n orfodol [ar ran cyngor (ch)][y tir][a'r][hawliau newydd dros dir] (d) a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion [(dd)].

1. Subject to the provisions of this order, the acquiring authority is, under [section of][and] [paragraph of Schedule to][the Act (b)], hereby authorised to purchase compulsorily [on behalf of the council (d)][the land][and][the new rights over land] (e) described in paragraph 2 for the purpose of [(f)].

2. [(1) Y tir a awdurdodwyd i'w brynu'n orfodol o dan gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellwyd a'i ddangos [] ar fap a gafodd ei baratoi'n ddyblyg, a seliwyd â sêl cyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio "Y map y cyfeirir ato yn [(a)]".] (e)

2. [(1) The land authorised to be purchased compulsorily under this order is the land described in the Schedule hereto and delineated and shown [] on a map prepared in duplicate, sealed with the common seal of the acquiring authority and marked "Map referred to in [(a)]".] (g)

[(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y gorchymyn hwn yn yr Atodlen a dangosir y tir [(e)] ar y cyfryw fap.]

[(2) The new rights to be purchased compulsorily over land under this order are described in the Schedule and the land is shown [(g)] on the said map.]

3. [Ymgorfforir Rhan[nau] 2 [a 3] o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 drwy hyn gyda'r gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau .] (f)

3. [Part[s] 2 [and 3] of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981 [is][are] hereby incorporated with this order subject to the modifications that .] (h)

[4. O dan adran 50 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf Adeiladau Rhestredig"), mae'r awdurdod caffael yn gwneud y cyfarwyddyd canlynol, ac yntau wedi'i fodloni y caniatawyd yn fwriadol i'r adeilad[au] rhestredig ("yr adeilad[au]") yr awdurdodwyd [ei brynu][eu prynu](d) yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn fynd i gyflwr gwael at ddibenion cyfiawnhau [ei ddymchwel][eu dymchwel] (d) a datblygu neu

[4. Under section 50 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 ("the Listed Buildings Act"), the acquiring authority makes the following direction, being satisfied that the listed building[s] authorised to be purchased compulsorily under this order ("the building[s]") [has][have] (e) been deliberately allowed to fall into disrepair for the purpose of justifying [its][their] (e) demolition and the development or redevelopment of the site or any

ailldatblygu'r safle neu unrhyw safle cyffiniol: at ddibenion asesu iawndal ac er gwaethaf unrhyw beth i'r gwrthwyneb yn Neddf Iawndal Tir 1961, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, cyfarwyddir drwy hyn y tybir na roddid caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu neu ailldatblygu safle'r Adeilad[au] ac na roddid caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith i ddymchwel, addasu neu estyn yr Adeilad[au], heblaw datblygu neu waith a fyddai'n angenrheidiol i'w [adfer][hadfer] [a'i gynnal][a'u cynnal] (d) mewn cyflwr da.] (ph)

adjoining site: for the purpose of assessing compensation and notwithstanding anything to the contrary in the Land Compensation Act 1961, the Town and Country Planning Act 1990 or the Listed Buildings Act, it is hereby directed that it is assumed that planning permission would not be granted for the development or redevelopment of the site of the Building[s] and that listed building consent would not be granted for any works for the demolition, alteration or extension of the Building[s], other than development or works necessary for restoring [it][them] to and maintaining [it][them] (e) in a proper state of repair.] (u)

YR ATODLEN

Tabl 1

| Rhif ar y map (ff) (1) | Hyd a lled, disgrifiad a lleoliad y tir (g) (2) | Personau cymwys o dan adran 12(2)(a) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (ng) (3) | | | |
|------------------------------|---|---|---------------------------------------|---|------------|
| | | Perchnogion neu berchnogion honedig | Lesddeiliaid neu lesddeiliaid honedig | Tenantiaid neu denantiaid honedig (heblaw lesddeiliaid) | Meddianwyr |
| | | | | | |

Tabl 2

| Rhif ar y map (ff) (4) | Personau cymwys eraill o dan adran 12(2A)(a) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (h) (5) | | Personau cymwys eraill o dan adran 12(2A)(b) o Ddeddf Caffael Tir 1981 - nad ydynt fel arall yn Nhabl 1 & 2 (i) (6) | |
|------------------------------|--|--|---|--|
| | Enw a chyfeiriad | Disgrifiad o'r buddiant sydd i'w gaffael | Enw a chyfeiriad | Disgrifiad o'r tir y mae'r person yn y golofn union gyferbyn yn debygol o hawlio yn ei gylch |
| | | | | |

[(l) Mae'r gorchymyn hwn yn cynnwys tir sy'n dod o fewn categorïau arbennig y mae adran 17(2), 18 neu 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 yn gymwys iddo, sef-

Rhif y map *Y categori arbennig (ll)]*

Dyddiad (m)

[*Cymal Ardystio*]

I weld y Nodiadau ar gyfer defnyddio'r Ffurf hon gweler y nodiadau ar ôl Ffurf 3.

SCHEDULE

Table 1

| Number on map (i) (1) | Extent, description and situation of the land (j) (2) | Qualifying persons under section 12(2)(a) of the Acquisition of Land Act 1981 (k) (3) | | | |
|-----------------------------|---|---|----------------------------|---|-----------|
| | | Owners or reputed owners | Lessees or reputed lessees | Tenants or reputed tenants (other than lessees) | Occupiers |
| | | | | | |

Table 2

| Number on map (i) (4) | Other qualifying persons under section 12(2A)(a) of the Acquisition of Land Act 1981 (l) (5) | | Other qualifying persons under section 12(2A)(b) of the Acquisition of Land Act 1981 - not otherwise shown in Tables 1 & 2 (m) (6) | |
|-----------------------------|--|--|--|--|
| | Name and address | Description of interest to be acquired | Name and address | Description of the land for which the person in adjoining column is likely to make a claim |
| | | | | |

[(o) This order includes land falling within special categories to which section 17(2), 18 or 19 of the Acquisition of Land Act 1981 applies, namely-

Number of map *Special category (p)*]

Date (q)

[Attestation Clause]

For Notes on the use of this Form see after Form 3.

FFURF 2**FORM 2**

Rheoliad 3(1)(b)

Regulation 3(1)(b)

FFURF GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
SY'N DARPARU AR GYFER BREINIO TIR
CYFNEWIDFORM OF COMPULSORY PURCHASE ORDER
PROVIDING FOR THE VESTING OF EXCHANGE
LAND[GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
() (a)][THE ()
COMPULSORY PURCHASE ORDER] (a)Deddf [] (b)
a Deddf Caffael Tir 1981The [] Act (b)
and the Acquisition of Land Act 1981

[Deddf(au) [] (b)]

[The [] Act(s) (b)]

Mae [] (c) (a elwir "yr awdurdod
caffael" yn y gorchymyn hwn) yn gwneud y
gorchymyn canlynol:-The [] (c) (in this order called "the
acquiring authority") makes the following order:-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gorchymyn hwn, awdurdodwyd yr awdurdod caffael, o dan [adran o][a] [pharagraff o Atodlen i][Ddeddf (b)], drwy hyn i brynu'n orfodol [ar ran cyngor (ch)][y tir][a'r][hawliau newydd dros dir] (d) a ddisgrifir ym mharagraff 2.

1. Subject to the provisions of this order, the acquiring authority is, under [section of][and] [paragraph of Schedule to][the Act (b)], hereby authorised to purchase compulsorily [on behalf of the council (d)] [the land][and][the new rights over land] (e) described in paragraph 2.

2. Y [tir][a'r][hawliau newydd] a awdurdodwyd i'w [brynu'n] [prynu'n] orfodol o dan y gorchymyn hwn yw, at ddibenion- (d)

2. The [land][and][new rights] authorised to be purchased compulsorily under this order [is][are] for the purpose of- (e)

- (i) [] (dd), y [tir][a'r][hawliau newydd] a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a amlinellir a'i ddangos [] (e) ar y map a gafodd ei baratoi'n ddyblyg, a seliwyd â sêl cyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio "Y map y cyfeirir ato yn [(a)]"; (e)
- (ii) rhoi yn [rhan] gyfnewid am [yr hawliau newydd] [a'r] [tir] y cyfeirir atynt yn is-baragraff (i) uchod y tir a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a amlinellir a'i ddangos [(e)] ar y cyfryw fap.

- (i) [] (ff), the [land][and][new rights] described in the Schedule 1 and which is delineated and shown [(g)] on the map prepared in duplicate, sealed with the common seal of the acquiring authority and marked "Map referred to in [(a)]"; (g)
- (ii) giving in [part] exchange for [the new rights] [and] [the land] referred to in sub-paragraph (i) above the land described in Schedule 2 and delineated and shown [(g)] on the said map.

3. [Caiff Rhan[nau] 2 [a 3] o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 [ei][eu] hymgorffori drwy hyn yn y gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau bod .] (f)

[3. Part[s] 2 [and 3] of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981 [is][are] hereby incorporated with this order subject to the modifications that .] (h)

[4.-(1) Yn y paragraff hwn, ystyr "tir y gorchymyn" yw'r tir [â rhif] [a ddisgrifir] yn Atodlen 1 ac ystyr "y tir cyfnewid" yw'r tir a ddisgrifir yn

[4.-(1) In this paragraph, "the order land" means the land [numbered] [described] in Schedule 1 and "the exchange land" means the land described in

Atodlen[ni][2][a][3].

(2) O'r diweddaraf o'r dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn ymlaen, bydd y tir cyfnewid yn breinio yn y person[au] yr oedd tir y gorchymyn wedi breinio [ynddo] [ynddynt] yn union cyn iddo freinio yn yr awdurdod caffael, yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion hynny a oedd ynghlwm wrth dir y gorchymyn; ac ar hynny bydd tir y gorchymyn yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny.] (o)

neu

[4.-(1) (a) Yn y paragraff hwn, ystyr "tir y gorchymyn" yw'r tir [â rhif] [a ddisgrifir] yn Atodlen 1 ac ystyr "y tir cyfnewid" yw'r tir a ddisgrifir yn Atodlen[ni][2][a][3] i hyn.(n)

(b) Am blot o'r tir cyfnewid, dangosir ei blot cyfatebol o dir y gorchymyn at ddibenion y paragraff hwn yng ngholofn olaf Tabl 2 yn Atodlen[ni][2][a][3].

(2) Mewn perthynas â phob plot o dir y gorchymyn a'r plot cyfatebol o'r tir cyfnewid, o'r diweddaraf o'r dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn ymlaen, bydd plot cyfatebol o'r tir cyfnewid yn breinio yn y person[au] yr oedd y plot hwnnw o dir y gorchymyn wedi breinio [ynddo] [ynddynt] yn union cyn iddo freinio yn yr awdurdod caffael, yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion hynny a oedd ynghlwm wrth y plot hwnnw o dir y gorchymyn; ac ar hynny bydd y plot hwnnw o dir y gorchymyn yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny.] (o)

(3) Y dyddiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwn yw'r dyddiad-

- (i) y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol;
- (ii) y breinir y plot o dir y gorchymyn yn yr awdurdod caffael;
- (iii) y breinir y plot cyfatebol o'r tir cyfnewid yn yr awdurdod caffael.(o)

5.-(1) Yn y paragraff hwn, ystyr "yr hawliau" yw'r hawliau newydd a ddisgrifir [yn rhif] yn Atodlen 1, ystyr "tir yr hawliau" yw'r tir y mae'r hawliau drosto i'w caffael ac ystyr "y tir ychwanegol" yw'r tir a ddisgrifir yn Atodlen[ni][2][a][3].] (n)

[(2) O'r diweddaraf o'r dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn, bydd y tir ychwanegol yn breinio yn y person[au] y mae tir yr hawliau wedi breinio [ynddo] [ynddynt] ac yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion hynny sydd ynghlwm wrth dir yr hawliau heblaw am y gorchymyn hwn; ac, ar hynny, bydd tir yr hawliau yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny, i'r graddau y byddai eu parhad yn anghyson ag arfer yr hawliau.] (o)

Schedule[s][2][and][3].

(2) As from the latest of the dates mentioned in sub-paragraph (3) of this paragraph, the exchange land will vest in the person[s] in whom the order land was vested immediately before it was vested in the acquiring authority, subject to the like rights, trusts and incidents as attached to the order land; and the order land will thereupon be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject.] (s)

or

[4.-(1) (a) In this paragraph, "the order land" means the land [numbered] [described] in Schedule 1 and "the exchange land" means the land described in Schedule[s][2][and][3]. (r)

(b) For a plot of the exchange land, its corresponding plot of the order land for the purposes of this paragraph is indicated in the last column of Table 2 in Schedule[s][2][and][3].

(2) In relation to each plot of the order land and the corresponding plot of the exchange land, as from the latest of the dates mentioned in sub-paragraph (3) of this paragraph, the corresponding plot of the exchange land will vest in the person[s] in whom that plot of the order land was vested immediately before it was vested in the acquiring authority, subject to the like rights, trusts and incidents as attached to that plot of the order land; and that plot of the order land will thereupon be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject.] (s)

(3) The dates referred to in sub-paragraph (2) of this paragraph are the date on which-

- (i) this order becomes operative;
- (ii) the plot of the order land is vested in the acquiring authority;
- (iii) the corresponding plot of the exchange land is vested in the acquiring authority. (s)

5.-(1) In this paragraph, "the rights" means the new rights described [at number] in Schedule 1, "the rights land" means the land over which those rights are to be acquired and "the additional land" means the land described in Schedule[s][2][and][3].] (r)

[(2) As from the latest of the dates mentioned in sub-paragraph (3) of this paragraph, the additional land will vest in the person[s] in whom the rights land is vested and subject to the like rights, trusts and incidents as attach to the rights land apart from this order; and the rights land will thereupon be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject to the extent that their continuance would be inconsistent with the exercise of the rights.] (s)

neu

[(2)(a) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys os breinir rhannau gwahanol o dir yr hawliau mewn personau gwahanol; ac at ddibenion y paragraff hwn, mae plot o dir yr hawliau yn cyfateb i blot o'r tir ychwanegol sydd nesaf at y disgrifiad ohono a geir yn Atodlen[ni][2][a][3] (*n*) lle nodir rhif y plot hwnnw.]

(b) Mewn perthynas â phob plot o dir yr hawliau a phlot cyfatebol y tir ychwanegol, o'r diweddaraf o'r dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn ymlaen, bydd y plot cyfatebol o'r tir ychwanegol yn breinio yn y person[au] yr oedd plot tir yr hawliau wedi breinio [ynddo] [ynddynt] yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion hynny a oedd ynghlwm wrth y plot hwnnw o dir yr hawliau; ac ar hynny bydd y plot hwnnw o dir yr hawliau yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny i'r graddau y byddai eu parhad yn anghyson ag arfer yr hawliau.] (*o*)

[(3) Y dyddiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwn yw'r dyddiad-

- (i) y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol;
- (ii) y breinir yr hawl neu'r hawliau (os oes mwy nag un) ym mhlot tir yr hawliau yn yr awdurdod caffael;
- (iii) y breinir plot cyfatebol y tir ychwanegol yn yr awdurdod caffael.] (*o*)

or

[(2)(a) This sub-paragraph applies where different parts of the rights land are vested in different persons; and, for the purposes of this paragraph, a plot of the rights land corresponds to the plot of the additional land next to the description of which is contained in Schedule[s][2][and][3] (*r*) the number of that plot is placed.]

